MaB Man and the Biosphere

# Cylchlythyr Parc Natur Penglais Newsletter

**Rhif 53 Tachwedd 2018**

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol:** Cynhelir y CCB dydd Mawrth, 27 Tachwedd 2018 ar 7:30pm yng Nghanolfan Methodistaidd St Paul. Yn dilyn y CCB bydd cyflwyniad o'r enw *On the Right Path – Managing Public Access?* gan ein siaradwr gwadd Eifion Jones, swyddog llwybrau cyhoeddus i Gyngor Sir Ceredigion. Mae croeso I bawb fynychu. Os oes gennych barn am eich gwarchodfa natur lleol a choedwig cymunedol, dyma gyfle i ddweud eich dweud.

**Newidiadau i Bwyllgor Cefnogi PNP:** Collodd y Pwyllgor ei Gadeirydd hir-dymor drwy farwolaeth David Adamson yn mis Mai. Roedd David yn un o'r sylfaenwyr a dim ond yr ail Gadeirydd: nid oedd yn awyddus i ymgymryd â'r swydd mewn gwirionedd . Serch hynny, roedd y grŵp yn werthfawrogi ei brofiad a'i gyngor doeth yn fawr iawn. Safodd y Pwyllgor mewn distawrwydd wrth y golygle fel teyrnged i David a'i holl waith dros y Parc. Etholir cadeirydd newydd yn y CCB.

Yn ystod y blwyddyn, ymddiswyddodd Judy Johnston a David Kirby, oedd wedi bod yn aelodau weithgar iawn o'r Pwyllgor. Serch hynny, croesawon ni 2 aelod newydd: etholwyd Andrew Mitchell yn CCB 2017, a chyf-etholwyd Paul Evans (rheolwr tir, Prifysgol Aberystwyth) i'r Pwyllgor ym mis Ionawr.

**Ariannu Prosiectau:** Yn ystod y blwyddyn, cafwyd £1,090 gan Gyngor Tref Aberystwyth i wella'r cyswllt rhwng y prif lwybr a'r golygle. Trefnwyd y gwaith i gael ei wneud gan fyfyrwyr o Wirfoddolwyr Cadwraeth Abersytwyth ym mis Tachwedd, o dan oruwchwiliaeth Peter Drake.

**Cynllun Rheoli PNP, 2018 – 2023:** Bydd y gwaith o baratoi'r pedwaredd cynllun rheoli yn cael ei gorffen erbyn diwedd mis Tachwedd. Y prif newidiadau o'r cynllun blaenorol yw diweddariad o'r disgrifiad o'r cyfreithiau sy'n effeithio ar y Parc a'r Gwarchodfa Natur Lleol o fewn Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion, ac hefyd i gyfuno'r estyniad newydd i Ffordd Brynymor mewn i'r dogfen. Mae dal angen i Gyfoeth Naturiol Cymru cymeradwyo'r estyniad yn swyddogol.

Mae'r amcanion rheoli ar gyfer y Parc yn aros fel y maent, sef 'i ddarparu defnydd hamdden tra'n gwarchod cadwraeth a safon y tirlun'. Disgrifir y Gwarchodfa Natur Lleol fel rhywle sydd mewn cyflwr da, er mae potensial i wella amrywiaeth strwythurol trwy annog adfywio naturiol a theneuo neu prysgoedio (*coppice*) mewn mannau o fewn y coedwig. Bydd rheoli hefyd yn ceisio adfer mwy o'r sgri o fewn ardal uchaf y chwarel gan reoli lledu sgrwb ac eithin. Bydd hyn hefyd yn darparu toriadau-tân. Amcanion rheoli ar gyfer yr estyniad fydd cynnal mwy o ardaloedd agored o wair a chynefin rhedyn, ond bydd sylw hefyd i werth yr ardaloedd sgrwb sydd yno i fywyd gwyllt.

Cyngor Sir Ceredigion
Ceredigion County Council

**Taith Blwyddiant PNP:** Ymunodd dros 45 o bobl â'r daith a sgwrs ar 15 Ebrill 2018 er mwyn dathlu 25 mlwyddiant y Parc. Trefnwyd ac arweiniwyd y daith gan David Kirby, ac fe arhosodd ar sawl lleoliad ar hyd y llwybr er mwyn siarad am hanes a nodweddion PNP.



*Cerddwyr yn wrando ar gyflwyniad gan David Kirby ar ddechrau'r taith blwyddiant ym mis Ebrill. (Llun gan Paul Evans)*

Y safle cyntaf oedd safle'r hen Fwthyn Penglais ar dop y grisiau newydd o Gornel y Cŵps; aeth y grŵp ymlaen ar hyd y prif lwybr gan aros eto wrth Lanerch y Ffawydd ac wrth y Ffynnon. Wedyn, aethom yn ôl i'r chwarel a thrwy'r estyniad newydd i'r Parc i orffen wrth allanfa Brynymor. Yno, plannodd y Maer (ar y pryd) Cyng. Steve Davies, coeden castan a dadorchuddiodd yr Aelod Seneddol, Ben Lake, bwrdd gwybodaeth newydd.

**Planu Coed yn Nhymor yr Hydref:** Yn gynharach eleni, cafwyd 2 rhodd haelionus iawn i'r Grŵp Cefnogi PNP er mwyn planu coed yn y Parc er gof pobl oedd â chysylltiadau â'r dref.
Roedd y ddiweddar Athro David Bateman wedi cerdded trwy PNP i'w waith yn y Brifysgol a nôl ar y rhan fwyaf o ddyddiau ac roedd wedi bod yn wirfoddolwr weithgar ar nifer o ddyddiau gweithgaredd yn gofalu am y Parc dros y blynyddoedd. Gofynnodd ei deulu i roddion fynd at y Grŵp Cefnogaeth.

Daeth ail rodd o ddynes yn Swydd Efrog: roedd ei Mam, Mrs Mair Whitby (née Williams) wedi cael ei geni yn Aberystwyth ac roedd wedi marw yn gynharach eleni yn 96 oed. Er roedd Mair wedi gadael y dref fel plentyn bach, roedd ei merch yn gwerthfawrogi atgofion o gerdded trwy'r cylchau'r gog ar ei hymweliadau.

Cyn benderfynu beth i wneud â'r rhoddion, ymgynghorodd y Grŵp Cefnogi â nifer o arbennigwyr lleol. Y consensws oedd gan fod y Parc, yn ogystal â bod yn warchodfa natur, hefyd yn coedwig cymunedol i fwynhad pawb, roedd lle i blanu nifer o enghreifftiau o rywogaethau fel derwen ddigoes (*sessile*) a Phyrwyrdd Albanaidd (*Scots Pine*). Dyfeisiwyd cynllun ar ôl ymweliad â'r safle ym mis Medi sef planu nifer o goed safonol mewn bylchau sy'n agos at y brif lwybr. Yn ogystal, canfuwyd tri neu pedwar lleoliad lle oedd sycamor wedi tyfu fyny ac yn tueddu domineiddio: torrir rhain er mwyn creu llanerchau bach ychwanegol. Bydd nifer o goed safonol yn cael eu planu yn y llefydd hyn, yn ogystal â grwpiau o goed bychain sy'n dwyn ffrwythau, megis helyg, coed gochel (*rowan*), coed afallau a draen. Plannir rhain ar ddiwrnod gwaith yn hwyr ym mis Tachwedd.

**Dyddiau Gwaith a Chynnal**: Ym mis Rhagfyr 2017 ar ddiwrnod gwaith olaf y blwyddyn, torrwyd drysi yn ôl gan fyfyrwyr o Wirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth ac aelodau'r o'r Grŵp Cefnogi, o dan arolygiaeth Paul Evans (Cyngor Sir Ceredigion). Gwnaethpwyd hyn ar hyd y llwybr rhwng



*Y grisau newydd ar y llwybr i'r olygle (Llun gan David Kirby)*

lanerch y ffawydd a giat y Prifathro. Ym mis Ionawr, cliriwyd tyfiant oedd wedi datblygu o gwmpas y coed newydd oedd wedi cael eu planu rhwng y ffynnon a llanerch y ffawydd yn 2012. Tynnir y deunyddiau gwarchod o gwmpas y coed yn ystod tymor yr hydref/gaeaf.

Ar ddiwrnod gwaith ym mis Chwefror, trwsiwyd y grisiau a phrysgoediwyd y celyn ar dop Cae Melyn gan fyfyrwyr o Wirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth ac aelodau'r Grŵp Cefnogi. Gwnaethpwyd gwaith ymhellach ar y grisiau hyn ym mis Hydref. Ym mis Mehefin, gwnaeth Peter Drake mainc newydd i'r domen uwchben y golygle. Roedd hyn yn cymryd lle'r mainc Mathur oedd wedi dirwyio tu hwnt i ddefnydd.

Roedd y myfyrwyr yn gwirfoddoli eto ym mis Hydref a mis Tachwedd o dan arolygiaeth Paul Evans (CSC) a Peter Drake yn tynnu sycamorau bach i greu llanerchau bach er mwyn planu coed nes ymlaen ym mis Tachwedd, fel y disgrifiwyd yn yr eitem diwethaf. Roedd Peter hefyd yn oruwchwilio gwaith y gwirfoddolwyr ac eraill ym mis Tachwedd ar brosiect a gyllidwyd gan Gyngor Tref Aberystwyth i adeiladu grisiau i wella'r cysylltiad o'r brif lwybr i'r olygle.

Mae'r grisiau'n cwblhau, i raddau helaeth, y gwelliannau a gynlluniwyd ar gyfer y brif lwybr trwy'r parc. Mae'r llethrau serth yn gwneud grisiau'n hanfodol mewn mannau o'r Parc ond ni ddylai fod angen mwy nawr. Dylai hyn blesio'r rhai sy'n teimlo mai grisau'n tynnu oddi ar olwg naturiol y coedwig hefyd y rhai sy'n llai abl yn gorfforol, sydd weithiau'n gweld grisiau'n rhwystr.

**Adfer Llanerch y Ffawydd:** Yn 2010, gwnaethpwyd gwaith a ariannwyd gan Amgylchedd Cymru i wella ansawdd y tir mewn ardal ar ochr gogledd-ddwyreiniol o Lanerch y Ffawydd, lle roedd gormod o gerdded dros y blynyddoedd wedi cyswasgu'r pridd ac wedi dinistrio'r rhan fwyaf o'r tyfiant. Gosodwyd rhaff o amgylch yr ardal ag adferwyd yn ogystal â nodiadau oedd yn esbonio'r sefyllfa ac yn gofyn i bobl beidio â cherdded yno tra oedd yr ardal wrthi'n atgyfodi.

Mae'r mesurau hyn wedi caniatáu gwelliant raddol ac ystyrir fod digon o atgyfodiad wedi bod er mwyn dynnu'r rhaff; gobeithir bydd y tyfiant sydd wedi ail-sefydlu ei hun yn ddigon i sicrhau na fydd pobl yn cerdded yno.


**Cofnodion Bylchau Nythu Adar:** Mae tîm o 4 wedi parhau i fonitro'r 28 blwch adar yn y Parc. Mae Moira Convery wedi cynhyrchu'r crynodeb canlynol o'r canlyniadau eleni:
"Roeddem i gyd yn ymwybodol nad yw'n flwyddyn da, wrth ystyried y dechreuad hwyr wedi gwanwyn wlyb iawn. Tariwyd y pela mawr yn arbennig o galed. Safodd yr oedolyn mewn un bocs am fis ond chafwyd dim byd. Cafod 4 arall cywion, gan fagu dim ond 15 rhyngddynt, sy'n gyfartaledd o lai na 4 i bob nyth. Mae fy llyfr tywys yn dweud bod rhwng 8 a 13 o gywion i bob nyth fel arfer.

Cawsom 14 pela glas, fu'n magu 87 o gywion, gyda chyfartaledd o 6.2 i bob nyth. Mae'r llyfr tywys yn awgrymu 7 i 12 felly nad yw hyn yn mor wael a sefyllfa'r pela mawr. Mae'r pela glas fel arfer yn nythu'n hwyrach na'r pela mawr felly mae'n bosib roedd gan y rhai benywaidd mwy o amser i atgyfodi'n gorfforol. Roedd yn dda gweld un nyth lle cafwyd 10 o gywion ac roedd hefyd 2 gyda 8. Ni allem wastad yn gwybod faint o wyau a ddodwyd ond sylwais ar nifer o gofnodion oedd yn dangos wyau heb eu dodwy ond dim cofnodion o adar feirw. Ychwanegwyd y canlyniadau at gronfa data newydd y BTO lle mae nhw ar gael yn ôl yr angen"

| | Pela Mawr | | Pela Glas | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer o fylchwau a meddiannwyd | Nifer o gywion a fagwyd | Nifer o fylchwau a meddiannwyd | Nifer o gywion a fagwyd |
| 2017 | 5 | 20 | 18 | 45 |
| **2018** | **5** | **15** | **14** | **87** |

**Planu Blaenorol:** Mae'r 2 coeden: gwaglwyfen (*wych elm*) a leim dail bychain, a blaniwyd ymyl y brif lwybr ym Mis Hydref 2016 yn datblygu'n dda. Rhoddwyd hyn gan rieni Lizzie Tyson, myfyrwraig diweddar yn y Brifysgol, fel cydnabyddiaeth o'i hamser hapus yn Aberystwyth, gan gynnwys gwirfoddoli yn y Parc.

**Taflenni Newydd:** Mae fersiwn newydd o daflen Taith y 2 Coedwig, gan ddisgrifio taith cylchol sy'n cysylltu PNP a Choed y Cwm, bron â bod yn barod i'w argraffu. Bydd y map newydd yn ddangos y dewis ychwanegol i gerddwyr o ddilyn y llwybr trwy'r estyniad PNP i Ffordd Brynymor.



*Leim Dail Bychain, un o'r 2 coeden a roddwyd yn 2016, yn edrych yn iawn yn nhymor yr hydref eleni.*

Golygydd: Steve Cuttle (e-mail *spcuttle@btinternet.com*)

Gyda diolch i'r 'bostmyn' am ddosbarthu'r copïau print, Laurie Wright am rhoi'r cylchlythyr ar wefan y Grŵp Aberystwyth Gwyrddach ac i bwyllgor PNP am eu cyfraniadau a phrawfddarllen.
Mae'r cyfeiriad wê ar gyfer tudalen Facebook y PNP yw:
*www.facebook.com/ParcNaturPenglais*

Bydd y cylchlythyr hyn ar gael yn ddwyieithog fel ffeil pdf ar *http://www.aber-gag.org.uk/*

Gyda diolch i Jeff Smith am y cyfieithiad Cymraeg.